
Diogelu'r rhai sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni teledu a radio

Ymgynghoriad ar reolau darlledu newydd

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 29 Gorffennaf 2019

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 23 Medi 2019

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg

1

1. Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn cynnig rheolau newydd i fynnu bod darlledwyr yn sicrhau eu bod yn rhoi 'gofal dyladwy' i bobl¹ sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni teledu a radio, gan ymestyn y mesurau amddiffyn a oedd eisoes mewn grym.

Mae gan Ofcom reolau'n barod yn y Cod Darlledu sy'n rhoi cyfrifoldebau ar ddarlledwyr o ran y bobl sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni, yn ogystal â chanllawiau penodol ar y 'gofal dyladwy' sy'n angenrheidiol i blant dan 18 oed sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae mwy o onestrwydd a phryder wedi bod mewn cymdeithas am iechyd meddwl a llesiant. Mae Ofcom hefyd wedi gweld cynnydd graddol yn y cwynion ynghylch pryder am les a llesiant pobl sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni.

Yn y cyd-destun hwn, rydym wedi bod yn adolygu ein mesurau amddiffyn ar gyfer y rheini sy'n cymryd rhan, a p'un a ddylid ymestyn y mesurau hynny i adlewyrchu lefel y diogelwch a roddir i blant dan ddeunaw oed. Ers i ni ddechrau edrych ar y materion hyn, mae digwyddiadau'n ymwneud â chanslo'r rhaglen *Jeremy Kyle* ar ITV ym mis Mai 2019 – a'r lefelau uchel o bryder cyhoeddus ynghylch agweddau o raglenni realaeth a mathau eraill o raglenni – wedi tanlinellu pwysigrwydd ein hadolygiad.

Beth rydym ni'n ei gynnig – yn gryno

Rydym yn cynnig cyflwyno dwy reol newydd i helpu i ddiogelu lles pobl sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni teledu a radio. Mae'r rheolau hyn yn seiliedig ar gysyniad 'gofal dyladwy', a byddai'r rhain yn berthnasol i raglenni sy'n cynnwys rhaglenni realaeth, rhaglenni dogfen, newyddion a materion cyfoes, rhaglenni ffonio mewn, rhaglenni cwis, cystadlaethau talent a mathau eraill o raglenni ffeithiol ac adloniant. Ni fyddai'r rhain yn berthnasol i ddramâu gan gynnwys comedïau sefyllfa neu operâu sebon. Dyma'r rheolau sy'n cael eu cynnig:

- Rhaid defnyddio gofal dyladwy gyda lles, llesiant ac urddas pobl sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni.
- Rhaid peidio ag achosi gofid neu bryder heb gyfiawnhad drwy gymryd rhan mewn rhaglenni neu drwy ddarlledu'r rhaglenni hynny.

Rydym hefyd yn gwahodd adborth ar y canllawiau sy'n gysylltiedig â'r rheolau hyn. Rydym yn ymgynghori ar ein dull arfaethedig, ac yn gwahodd enghreifftiau o arfer gorau i helpu darlledwyr i sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu'n briodol a'u bod yn cydymffurfio â'r rheolau.

Rydym yn cynnig newidiadau esboniadol i ddwy reol sy'n bodoli'n barod i amddiffyn plant. Pwrpas hyn yw sicrhau cysondeb â'r rheolau newydd arfaethedig.

¹ Yn y cyd-destun hwn, rydym yn cynnig bod pobl sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni, neu 'gyfranogwyr', yn golygu oedolion sydd wedi cytuno i gymryd rhan mewn rhaglen mewn unrhyw ffordd, ac eithrio cyflwynwyr a newyddiadurwyr.

- 1.1 Mae'n rhaid i Ofcom osod safonau ar gyfer cynnwys rhaglenni teledu a radio. Mae'r rhain i'w cael yn y Cod Darlledu ("y Cod"). Rydym yn adolygu a oes angen gofynion newydd ar y Cod i ddiogelu pobl sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni, gan gynnwys rhaglenni realaeth.
- 1.2 Wrth ymgymryd â'n prif ddyletswyddau o dan adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("Deddf 2003"), mae'n rhaid i Ofcom ystyried bregusrwydd plant yn ogystal ag "eraill y mae eu hamgylchiadau'n ymddangos i Ofcom fel petaent yn golygu bod angen eu diogelu".
- 1.3 Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar niwed posibl o ganlyniad i bobl yn cymryd rhan mewn rhaglenni; a p'un a oes angen i ni eu "hamddiffyn yn arbennig" o'r niwed posibl hwnnw ar ffurf rheolau penodol yn y Cod. Mae Ofcom yn teimlo y byddai'r ddarpariaeth yn adran 3 o Ddeddf 2003, ynghyd â'n dyletswydd i osod safonau o dan adran 319, yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol angenrheidiol i gyflwyno rheolau a Chanllawiau newydd arfaethedig yn y maes hwn.
- 1.4 Mae fformatau rhaglenni yn datblygu dros amser, yn yr un modd ag agweddau i les a llesiant mewn cymdeithas. Felly, rydym yn sylweddoli bod yn rhaid i reolau arfaethedig yn y maes hwn fod yn ddigon eang fel eu bod yn ymdrin â'r niwed posib a allai godi o ganlyniad i gymryd rhan mewn rhaglenni.
- 1.5 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod hefyd y gallai goblygiadau newydd yn y maes hwn arwain at ganlyniadau anfwriadol o ran gwneud rhaglenni ac, yn y pen draw, i ryddid mynegiant. Dydyn ni ddim yn bwriadu rhwystro gwneud rhaglenni drwy osod gofynion anghymesur nad oes modd eu cyfiawnhau ar ddarlledwyr – nac, yn ei dro, ar y cwmnïau cynhyrchu sy'n cael eu comisiynu i wneud rhaglenni. Ni ddylai darlledwyr ychwaith fod yn atebol am ddigwyddiadau y tu hwnt i'w rheolaeth, neu a allai gynnwys ystod o achosion cymhleth.
- 1.6 Rydym hefyd eisiau sicrhau na fydd y gofynion newydd yn golygu bod gwneuthurwyr rhaglenni a darlledwyr yn llai tebygol o gynnwys pobl agored i niwed yn eu rhaglenni. Yn wir, rydym yn cydnabod efallai bod budd cyhoeddus sylweddol mewn archwilio gwendidau o'r fath mewn rhaglenni.
- 1.7 Felly, rydym yn cynnig dull gweithredu cymesur a hyblyg, sy'n ystyried yr angen i ddiogelu'r rhai sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni rhag niwed posib; yr angen i alluogi darlledwyr a gwneuthurwyr rhaglenni i gynnwys amrywiaeth eang o bobl; a buddiannau gwylwyr a gwrandawyr.
- 1.8 Yn ogystal ag ystyried camau i sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu'n briodol, rydym hefyd wedi ystyried cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o fregusrwydd posib y rhai sy'n cymryd rhan yn y rhaglenni. Er enghraifft, ar yr un pryd â chynnal ein hadolygiad, mae Pwyllgor Dethol Materion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Tŷ'r Cyffredin wedi bod yn cynnal ei adolygiad ei hun i Raglenni Teledu Realaeth².
- 1.9 Mae rhaglenni sy'n canolbwyntio ar wrthdaro rhwng y rhai sy'n cymryd rhan neu sy'n dangos gwendidau pobl yn aml yn cynhyrchu nifer sylweddol o gwynion gan aelodau o'r

² Gweler: <https://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/digital-culture-media-and-sport-committee/inquiries/parliament-2017/realitytv/>.

cyhoedd i leisio pryder ynghylch lles y bobl sy'n cymryd rhan. Mae perygl i ymddiriedaeth cynulleidfaoedd mewn darlledwyr gael ei danseilio gan bryderon sylweddol fod darlledwr heb roi gofal priodol i'r rhai sy'n cymryd rhan yn ei raglenni. Felly, byddai'r rheolau newydd arfaethedig yn gweithio ochr yn ochr â Rheol 2.3 o'r Cod, sy'n golygu bod yn rhaid i'r cydestun gyfiawnhau unrhyw dramgwydd posib i gynulleidfaoedd, ac y darperir gwybodaeth briodol i gynulleidfaoedd er mwyn helpu i osgoi neu i leihau'r potensial i achosi tramgwydd.

1.10 Yn y ddogfen hon, byddwn yn:

- esbonio pam rydym yn cynnal yr adolygiad hwn ac yn egluro ein dyletswyddau statudol perthnasol;
- gosod, ac yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar, y ddwy reol newydd yn y Cod, ynghyd â'r newidiadau esboniadol rydym yn eu cynnig i'r ddwy reol sy'n bodoli'n barod; ac
- yn amlinellu'r egwyddorion y dylid eu hadlewyrchu mewn unrhyw ganllawiau ategol i reolau newydd arfaethedig y Cod. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys nodi'r camau priodol y dylai darlledwyr eu cymryd cyn, yn ystod ac ar ôl cynhyrchu, ac ystyried materion sy'n deillio o dechnegau golygyddol sy'n ymwneud â'r bobl sy'n cymryd rhan, fel defnyddio synhwyrdd celwyddau. Yn ogystal â gofyn i rhanddeiliaid am eu barn ar yr egwyddorion hyn, rydym yn gwahodd enghreifftiau o arferion da sy'n bodoli'n barod neu a gynigir i'w cynnwys mewn unrhyw ganllawiau newydd yn y maes hwn.

Y Camau Nesaf

Rydym yn gwahodd rhanddeiliaid i gyflwyno eu sylwadau erbyn 23 Medi 2019. Rydym ni'n bwriadu cyhoeddi datganiad sy'n nodi ein penderfyniadau terfynol yn ystod y gaeaf.

- Cwestiwn 1:** Ydych chi'n cytuno â'n rhesymeg dros y Rheolau 2.17 a 2.18 newydd arfaethedig? Rhowch resymau dros eich ateb.
- Cwestiwn 2:** Ydych chi'n cytuno â'r ystyr arfaethedig ar gyfer 'cyfranogwr' at ddibenion y rheolau hyn? Rhowch resymau dros eich ateb.
- Cwestiwn 3:** Ydych chi'n cytuno â chwmpas arfaethedig y rheolau hyn? Rhowch resymau.
- Cwestiwn 4:** Ydych chi'n cytuno â'r geiriad arfaethedig ar gyfer y Rheolau 2.17 a 2.18 newydd? Rhowch resymau dros eich ateb.
- Cwestiwn 5:** Ydych chi'n cytuno y dylid addasu Rheol 1.28 fel hyn? Rhowch resymau dros eich ateb.
- Cwestiwn 6:** Ydych chi'n cytuno y dylid addasu Rheol 1.29 fel hyn? Rhowch resymau dros eich ateb.
- Cwestiwn 7:** Ydych chi'n cytuno â'r ffordd yr ydym yn bwriadu ymdrin â chanllawiau'r Cod? Rhowch resymau.
- Cwestiwn 8:** Allwch chi roi enghreifftiau o arfer gorau o ran y gofal dyladwy ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni? Nodwch y rhai rydych chi'n teimlo y dylid eu cynnwys yn y canllawiau. Rhowch fanylion os oes modd.